

Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau. Mae gwybodaeth gadarn am ystod o ymyriadau wedi'u seilio ar dystiolaeth, ynghyd â'r modd y mae gweithiwr cymdeithasol yn eu cymhwyso, yn adnoddau allweddol mewn ymarfer gwaith cymdeithasol. Gall ffocws yr ymyrraeth fod yn grŵp, unigolyn neu'n system y mae unigolyn yn gweithredu oddi mewn iddi. Mae'r safon hon yn cydnabod y bydd angen dewis ymyriadau gwahanol ar gyfer sefyllfaoedd gwahanol ac esbonio'r dewis hwnnw, yn ôl yr angen. Mae'r safon hefyd yn pwysleisio'r angen i fyfrio'n ofalus ar effeithiolrwydd unrhyw ymyrraeth a ddefnyddir, ynghyd â pharodrwydd i ddysgu ac addasu ymarfer i helpu i sicrhau newid wrth i'r ymyrraeth symud yn ei blaen.

SCDSW17

Cymhwyso dulliau a modelau ymyrraeth gwaith cymdeithasol i hybu newid

Meini prawf perfformiad

Mae'n rhaid eich bod chi'n gallu:

- P1 ymchwilio i amrywiaeth o **ddulliau a modelau ymyrraeth gwaith cymdeithasol** a all hybu newid mewn sefyllfaoedd penodol
- P2 dadansoddi sut gall eich sgiliau proffesiynol a rhyngpersonol eich hun gael eu harddangos o fewn dulliau a modelau ymyrraeth gwaith cymdeithasol
- P3 mynegi eich rhesymwaith dros ddewis ymyriadau penodol mewn sefyllfaoedd penodol
- P4 defnyddio eich sgiliau proffesiynol a rhyngpersonol eich hun i gymhwyso ymyriadau gwaith cymdeithasol
- P5 monitro trwy fyfyrion mewn ymarfer ar effeithiolrwydd yr ymyriadau o ran sicrhau newid
- P6 adolygu ymyriadau i ystyried monitro myfyriol

SCDSW17

Cymhwyso dulliau a modelau ymyrraeth gwaith cymdeithasol i hybu newid

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

- K1 nodweddion y wlad gartref, ei hiaith, diwylliant, daearyddiaeth ac arferion
- K2 damcaniaethau sy'n tanategu ein dealltwriaeth o ddatblygiad dynol a'r ffactorau sy'n effeithio arno
- K3 damcaniaethau sy'n tanategu ein dealltwriaeth o faterion cymdeithasol o safbwyntiau seicolegol, cymdeithasegol a throsedddegol
- K4 damcaniaethau gwahaniaethu mewn cymdeithas gyfoes
- K5 beirniadaethau ar sail damcaniaethau ac ymchwil ar y berthynas rhwng deddfwriaeth, polisïau ac ymarfer gwaith cymdeithasol
- K6 gwaith cymdeithasol fel proffesiwn, gan gynnwys adroddiadau hanesyddol a materion cyfoes
- K7 natur, rôl a gorchymyn y berthynas gwaith cymdeithasol, gan gynnwys ffiniau proffesiynol a moesegol
- K8 egwyddorion, damcaniaethau, dulliau a modelau o ymyriad ac ymarfer gwaith cymdeithasol
- K9 **ffactorau** sy'n gyffredinol yn cael eu cysylltu ag ymglymiad gwaith cymdeithasol
- K10 tueddiadau demograffig a chymdeithasol
- K11 eich cefndir, profiadau ac arferion eich hun a all effeithio ar eich ymarfer gwaith cymdeithasol
- K12 egwyddorion asesu risg a rheoli risg
- K13 egwyddorion cymryd risg yn gadarnhaol
- K14 technegau datrys problemau a meddwl arloesol
- K15 egwyddorion rheoli gwrthdaro
- K16 natur gwrthdaro ac effaith ôl-gwrthdaro ar y gymdeithas
- K17 gweithio yn eich sefydliad: egwyddorion, gweithdrefnau ac ymarferion proffesiynol
- K18 offer a fframweithiau asesu a chynllunio
- K19 cyd-destun diwylliannol ac ieithyddol yr unigolyn, y teulu, y grŵp neu'r gymuned

SCDSW17

Cymhwyso dulliau a modelau ymyrraeth gwaith cymdeithasol i hybu newid

- K20 egwyddorion gweithio mewn partneriaeth ag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau
- K21 gweithdrefnau amlddisgyblaethol a sefydliadol lleol ar gyfer ymchwilio i niwed neu gamdriniaeth
- K22 nodweddion cyffredin ymddygiad cyflawnwyr
- K23 dangosyddion gelyniaeth, gwrthwynebiad neu ddiffyg cydymffurfio cudd
- K24 potensial unigolion i ddefnyddio eu cryfderau a'u hadnoddau personol i gyflawni newid
- K25 gwerth a rôl rhwydweithiau teuluol, cymunedau a grwpiau o ran cyflawni canlyniadau cadarnhaol, a ffyrdd i'w datblygu
- K26 rôl brocera o ran sicrhau gwasanaethau
- K27 egwyddorion ymarfer myfyriol, meddwl beirniadol a dysgu
- K28 prosesau a gofynion ar gyfer goruchwyliaeth ffurfiol o fewn eich sefydliad eich hun
- K29 sut a phryd i fanteisio ar gymorth anffurfiol wrth ymarfer
- K30 ffynonellau o adborth a all lywio myfyrio ar ymarfer a meddwl beirniadol

SCDSW17

Cymhwyso dulliau a modelau ymyrraeth gwaith cymdeithasol i hybu newid

Gwybodaeth Ychwanegol

Cwmpas/ystod

Ymarfer gwaith cymdeithasol gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau, mewn ystod eang o gyd-destunau, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol statudol ac anstatudol, datblygu cymunedol, cyfiawnder troseddol a lles addysgol

Cwmpas/ystod sy'n gysylltiedig â meini prawf perfformiad

Mae **dulliau a modelau ymyrraeth gwaith cymdeithasol** yn cynnwys gwaith grŵp, damcaniaeth systemau, cwnsela, therapi ymddygiad gwybyddol, ymagweddau sy'n canolbwyntio ar atebion, ymarfer adferol ac ati

Cwmpas/ystod sy'n gysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

Gall **ffactorau** gynnwys camddefnyddio sylweddau; iechyd meddwl; eiddilwch; salwch corfforol; anabledd corfforol; anabledd dysgu; anghenion synhwyraidd; mudo a cheisio lloches; tlodi; oedolion neu blant mewn perygl o niwed neu gamdriniaeth; plant mewn angen; anawsterau sy'n ymwneud ag addysg; statws grŵp ethnig neu grŵp lleiafrifol arall; ymddygiad troseddol; diogelu'r cyhoedd

SCDSW17

Cymhwyso dulliau a modelau ymyrraeth gwaith cymdeithasol i hybu newid

Gwerthoedd

Glynu wrth y codau ymarfer rheoleiddiol sy'n gymwys i weithwyr cymdeithasol, a'r gwerthoedd sydd wedi cael eu mewnosod ynddynt

Sgiliau

- 1 Cynllunio camau gweithredu i gyflawni canlyniadau canfyddedig
- 2 Cyfathrebu mewn modd agored, cywir a dealladwy
- 3 Addasu cyfathrebu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd
- 4 Hwyluso defnydd pob unigolyn o iaith a dull cyfathrebu dewisol
- 5 Cynnal ymddiriedaeth a hyder unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau
- 6 Gweithio'n effeithiol gyda'r rheiny sydd â safbwyntiau neu werthoedd sy'n gwrthdaro â'ch rhai chi
- 7 Trafod gydag eraill i gyflawni cytundeb mewn sefyllfaoedd cymhleth
- 8 Herio eraill, lle bo angen, mewn ffyrdd sy'n debygol o gyflawni newid
- 9 Cymhwyso meddwl beirniadol i wybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau
- 10 Dadansoddi a chyfosod gwybodaeth gymhleth
- 11 Cymhwyso meddwl creadigol i ddatrys problemau cymhleth
- 12 Llunio barn broffesiynol ynghylch sefyllfaoedd cymhleth
- 13 Defnyddio eich sgiliau rhyngpersonol a sgiliau a gwybodaeth arall fel adnodd
- 14 Cymhwyso ymagweddau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- 15 Cydbwyso canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn â lles pobl eraill
- 16 Ymarfer pendantsrwydd, grym ac awdurdod mewn ffyrdd sy'n gydnaws â gwerthoedd gwaith cymdeithasol
- 17 Cael mynediad at systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a'u defnyddio i gasglu, storio a lledaenu gwybodaeth
- 18 Cael mynediad at oruchwyliaeth a chymorth proffesiynol a'u defnyddio mewn sefyllfaoedd y tu hwnt i'ch gwybodaeth neu'ch profiad chi
- 19 Defnyddio sgiliau ymchwilio
- 20 Cymhwyso meddwl beirniadol er mwyn myfyrio ar eich ymarfer eich hun
- 21 Cyfosod gwybodaeth ac ymarfer

SCDSW17

Cymhwyso dulliau a modelau ymyrraeth gwaith cymdeithasol i hybu newid

Cysylltiadau â SGC eraill

Mae'r SGC hon yn cysylltu'n agos â:

SCD SW 9 Cynnwys pobl mewn ymarfer gwaith cymdeithasol

SCD SW 14 Cynllunio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â materion tymor byr a thymor hwy

SCD SW 15 Cytuno ar gynlluniau rheoli risg i hybu annibyniaeth a chyfrifoldeb

SCD SW 19 Gwerthuso canlyniadau gwaith cymdeithasol

Cysylltiadau Allanol

Mae'r SGC hon yn cysylltu â chodau ymarfer rheoleiddiol sy'n berthnasol i weithwyr cymdeithasol.

SCDSW17

Cymhwyso dulliau a modelau ymyrraeth gwaith cymdeithasol i hybu newid

Datblygwyd gan Sgiliau Gofal a Datblygu

Rhif y fersiwn 1

Dyddiad cymeradwyo HYDREF 2011

Dyddiad adolygu mynegol EBRILL 2014

Dilysrwydd CYFREDOL

Statws GWREIDDIOL

Sefydliad gwreiddiol Sgiliau Gofal a Datblygu

URN gwreiddiol SW17

Galwedigaethau perthnasol Gweithiwr Cymdeithasol

Cyfes GWAITH CYMDEITHASOL

Allweddeiriau GWAITH CYMDEITHASOL; YMARFER; GWYBODAETH; TYSTIOLAETH